

Cofnodion Pwyllgor Clwb Mynydda Cymru a gynhaliwyd ar nos Lun, 15 Hydref 2018 yn Ystafell Gwynant, Plas y Brenin, Capel Curig

Presennol: Gwyn (GW) – yn y gadair, Iolo (IPR), Eryl (EO), Dwynwen (DP), Iolo (ap Gwynn)(IAG), Raymond(RG), Dilys (DAP), Steve (SW), Myfyr (MT)

Ymddiheuriadau: Sian, Elen, Eirwen, Richard, Dewi

1.	<p><u>COFNODION</u></p> <p>Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Mai, 2018 fel rhai cywir.</p> <p>Yn codi</p> <p><u>Rheoli Diogelu Data</u></p> <p>Penderfynwyd, yn sgil penderfyniadau'r pwyllgor yn ei gyfarfod diwethaf, cadarnhau fod y polisi bellach wedi ei fabwysiadau yn ffurfiol a'i gylchredeg i'r holl aelodau.</p> <p><u>Y Wefan a Chyfyngau Cymdeithasol</u></p> <p>Adroddwyd drwy law EH fod Mari wedi agor cyfrif Instagram ar gyfer y Clwb a bod angen trefnu i roi lluniau arno</p>
2.	<p><u>ADRODDIAD ARIANNOL 2017-2018</u></p> <p>Cyflwynwyd adroddiad gan DAP ar gyfrifon y Clwb am y flwyddyn ariannol 2017-2018 a fydd yn cael ei chyflwyno i'r Cyfarfod Blynyddol. Nododd bod y cyfrifon yn dangos bod y Clwb yn rhedeg ar golled (a fydd yn cael sylw yn yr eitem nesaf)</p> <p>Cytunwyd</p> <p>(i) Nodi'r cyfrifon a'u cyflwyno i sylw'r Cyfarfod Blynyddol (ii) Gofyn i DAP gylchredeg y cyfrifon yn electroneg fel bod yr holl aelodaeth yn cael eu gweld (iii) Nodi barn y Pwyllgor ei bod yn bwysig bod teithiau preswyl y Clwb yn hunangynhaliol a dim yn rhedeg ar golled</p>
3.	<p><u>TAL AELODAETH Y CLWB</u></p> <p>Cyflwynwyd adroddiad DAP ar dâl aelodaeth 2019 a chofrestru'r Clwb fel elusen</p> <p>Adroddodd</p> <ul style="list-style-type: none">• O'r tâl aelodaeth presennol o £15, mae'r swm a delir i'r CMP wedi cynyddu i £14.25 y pen• Mae gan y Clwb incwm o oddeutu £4,500 tra mae'r gwariant yn £5000. Golyga golled ariannol o £500 y flwyddyn nad yw'n gynaliadwy yn y tymor hir• Yn sgil hyn argymhella godi'r tâl aelodaeth i £20 y flwyddyn• Roedd wedi ystyried y posibilrwydd o ddefnyddio'r drefn Debyd Uniongyrchol i dderbyn tâl aelodaeth y Clwb ond wedi darganfod na fyddai'r banc yn caniatáu i gorff hefo trosiant o lai na £1M y flwyddyn ei ddefnyddio• Wedi ystyried y posibilrwydd o gofrestru'r Clwb fel elusen canfu fod manteision penodol i wneud hynny• Roedd y drefn o sefydlu'r Clwb fel elusen yn gallu bod yn un llafurus a hir ond rhagwelai unwaith y byddai wedi ei gofrestru y byddai'r trefniant yn eitha' rhwydd wedyn• Byddai cofrestru'r Clwb fel elusen yn golygu y byddai'n bosib i'r Clwb hawlio treth yn ôl dan y cynllun rhodd cymorth a fyddai yn cynyddu incwm blynyddol y Clwb.• Os am gofrestru fel elusen, byddai angen penodi ymddiriedolwyr i fod yn gyfrifol am ei weithgareddau. Byddai'n rhaid cael o leiaf dri, a nhw yn unig fyddai â'r hawl i wneud penderfyniadau ar ran y Clwb.• Os ceir cytundeb i godi tâl aelodaeth, bydd angen cysylltu â'r holl aelodau yn gofyn iddynt gynyddu'r swm a delir drwy orchymyn banc.

	<p>Cytunwyd</p> <p>(i) Derbyn argymhellion yr adroddiad ac argymell i'r Cyfarfod Blynyddol bod tâl aelodaeth y Clwb yn codi i £20 y flwyddyn</p> <p>(ii) hefyd argymell i'r cyfarfod bod y Clwb yn cofrestru fel elusen</p> <p>(iii) Os bydd y cyfarfod yn cytuno, gofyn i DAP symud ymlaen gyda'r gwaith o gofrestru'r Clwb fel elusen hefo'r Comisiynwyr Elusennol gan nodi y gallai ofyn am gymorth gyda'r gwaith yma gan aelodau'r Pwyllgor os angen</p> <p>(iv) mai aelodau'r Pwyllgor fydd yr ymddiriedolwyr</p> <p>(v) Nodi os bydd y Cyfarfod Blynyddol yn cytuno i godi'r tâl aelodaeth, y caniateir cyfnod o 12 mis i aelodau newid eu Gorchymyn banc cyn tynnu eu henwau oddi ar y rhestr aelodaeth</p>	
4	<p><u>Darlith Eisteddfod Genedlaethol 2018</u></p> <p>Nododd GW bod canmoliaeth fawr i Marged Tudur a draddododd Ddarlith Goffa Llew Gwent yn yr Eisteddfod eleni yng Nghaerdydd ac y gellir bellach gweld y ddarlith ar Wefan y Clwb. Bydd y Pwyllgor yn edrych ar y trefniadau ar gyfer darlith 2019 yn y cyfarfod ym mis Ionawr o dan arweinyddiaeth yr Is-gadeirydd newydd.</p>	
5.	<p><u>DATHLIADAU PEN-BLWYDD Y CLWB YN 40 YN 2019</u></p> <p>Cafwyd diweddariad ar waith y Panel fu'n edrych ar wahanol ffyrdd o ddathlu'r achlysur yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Llanrwst.</p> <p>Adroddwyd</p> <p>bod trefniant mewn lle i gynnal sgwrs yn y Babell Llen ar y prynhawn dydd Llun gyda Gerallt Pennant yn cadeirio a chytunodd Eric Jones a Dei Thomas i fod ar y panel. Roedd bwriad i ofyn i Gwen Aaron hefyd. Byddai'r sgwrs yn cael ei recordio gan Radio Cymru.</p> <p>bod cynlluniau ar y gweill i'r Clwb gael uned (neu ddwy) ar y maes. Gwnaed cais i'r CMP rannu'r gost o logi'r uned(au) ac roeddynt i weld yn gefnogol i hyn ond heb wneud ymrwymiad pendant. Gallai'r gost fod o leiaf £1200 ar gyfer un uned ond pris yr ail yn llai.</p> <p>bod bwriad i holi rhai o'r aelodau gwreiddiol megis Anet, Maldwyn ac Iolo (AG) ac ati os oedd ganddynt luniau y gellid eui defnyddio ar gyfer arddangosfa yn yr uned.</p> <p>bod DP yn edrych ar drefnu taith o Gaernarfon (lle sefydlwyd y Clwb yn yr Eisteddfod yno) i faes yr Eisteddfod yn Llanrwst, taith a fyddai yn cymryd oddeutu 12 awr ond yn cael ei rhannu yn gymalau fel y gellid ymuno â hi ar wahanol adegau pe dymunid.</p> <p>Cytunwyd</p> <p>(i) Cytuno ag argymhellion y Panel ar gyfer dathlu'r achlysur</p> <p>(ii) Gofyn i MT holi'r CMP a fyddent yn fodlon cyfrannu £1000 tuag at y gost o logi'r uned</p> <p>(iii) Gofyn i RG holi'r Bartneriaeth Awyr Agored a fyddent â diddordeb mewn rhannu uned (a'r gost) gyda'r Clwb</p> <p>(iv) Gofyn i Huw Brassington a fyddai'n fodlon rhoi darlith Llew Gwent</p> <p>(v) Gofyn i IPR anfon llythyr i Eric Jones yn cadarnhau'r manylion ar gyfer y sgwrs yn y Babell Llen</p> <p>(vi) y derbynir adroddiad pellach gan y Panel ym mis Ionawr</p>	
6	<p><u>CYFARFOD BLYNYDDOL 2018/ AELODAETH Y PWYLLGOR</u></p> <p>Adroddodd IPR ar y cynnydd yn y trefniadau ar gyfer y Cyfarfod Blynyddol</p> <p>Adroddwyd</p> <ul style="list-style-type: none"> • bod dal angen ystyried sut i lenwi'r slot ar gyfer y gŵr/gwraig gwadd • bod tymor y Cadeirydd yn dod i ben eleni a bod angen ystyried cael Is-gadeirydd newydd wedi i GW symud i'r gadair • bod EH wed datgan ei bod am ymddiswyddo am y tro gan ei bod yn symud i fyw yn Ffrainc am gyfnod • bod angen ffurfioli sefyllfa RR a oedd yn bresennol yng nghyfarfodydd y pwyllgor fel cyn gadeirydd ond oedd bellach hefyd yn gwasanaethu fel trysorydd cynorthwyol <ul style="list-style-type: none"> • Nododd GW fod Dwynwen wedi cytuno y gellid cynnig ei henw i wasanaethu fel Is-gadeirydd newydd y Clwb • Datganodd MT nad yw am barhau i fod ar y Pwyllgor ar ôl eleni 	

	<p>Cytunwyd</p> <p>(i) gofyn i Dilwyn Morgan a fyddai'n fodlon bod yn ŵr gwadd ar gyfer y Cyfarfod Blynyddol eleni (ii) byddai EO yn gofyn iddo ac os byddai cytuno, cael y sgwrs ar ôl y cinio blynyddol (iii) gofyn i George Jones a John Grisedale a fyddent yn fodlon rhoi sgwrs ar Dîm Achub Llanberis os na fydd Dilwyn Morgan yn derbyn (iv) rhoi enw DP ymlaen i wasanaethu fel Is-gadeirydd i'r Cyfarfod Blynyddol (v) cyfethol RR i fod yn aelod o'r pwyllgor os yw'n gytûn (vi) nodi y bydd gwahoddiad i SS fynychu cyfarfodydd y pwyllgor fel cyn gadeirydd (vii) byddai o fantais i gael un o'r criw sy'n mynd allan i gerdded ar ddydd Mercher yn gwasanaethu ar y Pwyllgor</p>
7	<p><u>CYNLLUNIO RHAGLEN WEITHGAREDDAU'R CLWB</u></p> <p>Adroddodd EO fod Maldwyn wedi cychwyn ar y gwaith o wneud trefniadau ar gyfer y daith i'r Alban ym mis Chwefror 2019. Roedd yn edych ar daith yn ardal y Cairngorms y tro hwn. Hefyd gan y cafwyd wythnosau llwyddiannus yn yr Alban ym mis Mai/Mehefin dros y ddwy flynedd diwethaf roedd yn edrych ar drefnu rhywbeth cyffelyb yn 2019 gydag ardal Glencoe dan sylw.</p> <p>Cytunwyd</p> <p>(i) nodi y trefniadau sydd ar y gweill ar gyfer y teithiau i'r Alban yn 2019 (ii) gofyn i RG yrru manylion am daith bosib i ardal Mourne yng Ngogledd Iwerddon yn Hydref 2019 i EO eu cylchredeg i weld os oes diddordeb (iii) gofyn i GW drefnu taith ar gyfer y criw Mercher yn 2019 yn ardal y Bannau/Mynyddoedd Du yn Ne Cymru.</p>
8	<p><u>MATERION CMP</u></p> <p>Adroddodd MT y cynhaliwyd cyfarfod diwethaf cangen leol y CMP yn Nant Peris ar y 4ydd o Fedi 2018 ac roedd llywydd newydd y Corff yn bresennol yno. Un o'r prif faterion a drafodwyd oedd yr ymgyrch "Mend our Mountains" ac un o'r cynlluniau wedi ei gynnwys yn yr ymgyrch eleni oedd llwybr Mynydd Moel ger Cader Idris. Roedd y cyfarfod nesaf wedi ei drefnu ar gyfer 21 Tachwedd 2018</p> <p>Cytunwyd</p> <p>(i) diolch i MT am ei adroddiad (ii) yn sgil penderfyniad MT i beidio â pharhau i fod yn aelod o'r Pwyllgor byddai SW yn cynrychioli'r Pwyllgor ar y corff</p>
9	<p><u>MATERION Y BARTNERIAETH</u></p> <p>Cafwyd diweddariad gan RG am y Bartneriaeth</p> <p>Cytunwyd y dylai RG anfon gwybodaeth am gyrsiau'r Bartneriaeth i IAG i'w cynnwys ar wefan y Clwb</p>
10.	<p><u>CANLLAWIAU I ARWEINYDDION TEITHIAU</u></p> <p>Cytunwyd y dylai EO gylchredeg y canllawiau drafft yr oedd wedi eu paratoi i aelodau'r Pwyllgor trwy e-bost yn gofyn am sylwadau ac os oedd pawb yn gytûn y gellid symud ymlaen wedyn i'w cyhoeddi.</p>
11	<p><u>Ymgyrch Mend our Mountains</u></p> <p>Cafwyd trafodaeth ar ymgyrch y CMP i godi arian ar gyfer trwsio llwybrau mynyddig ledled y wlad. Nodwyd fod apêl gyffredinol gan y CMP a fyddai yn dosbarthu arian a dderbyniwyd ar gyfer cynlluniau trwsio llwybrau trwy'r DU a bod hefyd gynlluniau penodol ar gyfer atgyweirio llwybrau i fyny Mynydd Moel, Cader Idris a Phen y Fal yn y Bannau ganddynt</p> <p>Yn y drafodaeth mynegwyd pryder am gyflwr truenus y llwybr i fyny Mynydd Moel a'r angen i'w atgyweirio a chodwyd y posibilrwydd o'r Clwb wneud cyfraniad i'r apêl a hefyd gofyn i'r aelodau'r Clwb wneud cyfraniadau unigol</p> <p>Cytunwyd</p> <p>(i) Nodi fod y Pwyllgor yn gefnogol iawn i'r ymgyrchoedd dan sylw (ii) Yn sgil y trafodaethau a gafwyd yn gynharach ynglŷn â sefyllfa ariannol y Clwb ar hyn o bryd na fyddai'n ddoeth i'r Pwyllgor wneud cyfraniad i'r apêl ond gallai fod yn rhywbeth y gellid ei gefnogi yn y dyfodol pan fydd y gyllideb ar sail fwy cadarn</p>

	(iii) dylid anfon nodyn i'r aelodau yn eu hannog i roi cyfraniad o dyweder £10 i'r apêl yng Nghymru	
12	<p><u>Hostel Ieuenctid Gorffwysfa</u></p> <p>Adroddodd GW iddo ymweld â'r sefydliad yma dros yr haf a chanfod eu bod yn gweini brecwast "Full English" yng nghanol Eryri.</p> <p>Cytunwyd dylid gofyn i IPR anfon nodyn i'r YHA yn gofyn a fyddai'n bosib iddynt roi naws mwy Cymreig i'w bwydlen.</p>	
13.	<p><u>CYFARFOD NESAF Y PWYLLGOR</u></p> <p>Cytunwyd y bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar nos Lun 14 Ionawr, 2019 yng Nghapel Curig os yn bosib.</p>	